**Pwyllgor Rhywogaethau Planhigion a Hadau**

**Protocol Amodol – Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth**

## Egwyddorion

- Pwrpas y protocol hwn yw amlinellu'r drefn sy'n caniatáu i gynigion ar gyfer deddfwriaeth ar hawliau bridwyr planhigion, cofrestru amrywogaethau ac ardystio a marchnata gael eu hystyried gan DAERA, Defra, Llywodraeth yr Alban, a Llywodraeth Cymru.
- Er bod Amrywogaethau a Hadau Planhigion (PVS) yn faes polisi datganoledig, mae'r ffaith fod y diwydiant PVS yn gweithredu ledled y DU, a bod ganddo rwymedigaethau rhyngwladol, yn galw am gydweithio agos er mwyn rhoi eglurder a sicrwydd i fusnesau, awdurdodau gorfodi a defnyddwyr.
- Gellir gwneud deddfwriaeth ar sail ddatganoledig ar gyfer Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu ar sail Prydain neu ar sail y DU.
- Nid yw'r posibilrwydd o ymwahanu ar ofynion deddfwriaethol, yn dilyn cynnig, wedi'i atal o'r broses a ddisgrifir yn y protocol hwn.
- Mae'r Cytundeb ar Ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r UE yn amlinellu'r trefniadau presennol lle bydd Gogledd Iwerddon, er y bydd yn aros o fewn tiriogaeth dollau'r DU, yn parhau'n gydnaws â'r UE o ran deddfwriaeth yn ymwneud â chofrestru amrywogaethau ac ardystio a marchnata.

## Protocol

1. Gellir cyflwyno cynnig ar gyfer diwygio neu gyflwyno deddfwriaeth i'r Pwyllgor Rhywogaethau Planhigion a Hadau (PVSC) ar ffurf papur drafft cychwynnol, neu gyfrwng addas arall, gan y Pwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol (NLSC) neu unrhyw un o is-grwpiau'r NLSC, y diwydiant, DAERA, Defra, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, a gan y PVSC ei hun.
2. Bydd y PVSC yn ystyried cynnig i ddiwygio neu gyflwyno deddfwriaeth.
3. Dylai pob cynnig gael ei ystyried gan y PVSC yn gyntaf. Cynhelir gwerthusiad polisi cychwynnol, a gwneir trefniadau i gynnal ymarfer blaenoriaethu drwy ohebiaeth ebost neu mewn cyfarfod cyn gynted ag y bo modd. Os bydd y cynnig yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth a/neu'n angenrheidiol gan y PVSC, cytunir pwy ddylai fod yn gyfrifol am gynhyrchu papur manwl ar y cynnig. Dylid drafftio'r papur i ddarparu tystiolaeth, cyfiawnhad ac ystyriaeth lawn o'r cynnig, gan gynnwys:
    - 3.1. Y sail resymegol;
    - 3.2. Manylion y newid a gynigir;
    - 3.3. A ddylai'r newidiadau a gynigir gael eu hadlewyrchu yn y ddeddfwriaeth sy'n gymwys i'r DU yn ei chyfanrwydd ynteu i ran ohoni;

3.4. Ystyriaeth o’r modd y cymhwysir Fframwaith Windsor, gan gynnwys asesiad o effaith a goblygiadau’r gofyniad i Ogledd Iwerddon fod yn gydnaws â deddfwriaeth yr UE ac a fydd Prydain yn dewis bod yn gydnaws;

3.5. Ystyriaeth o’r meini prawf fel y maent wedi’u disgrifio ym mharagraff 6; a

3.6. Llinell amser a awgrymir.

4. Lle bo’n briodol, bydd yr NLSC yn ystyried y cynnig fel y mae wedi’i osod yn y papur. Bydd yn darparu gwerthusiad technegol o’r cynnig i’r PVSC ei ystyried.

5. Bydd y PVSC yn adolygu’r cynnig yn y cyfarfod nesaf sydd wedi’i drefnu, neu os oes angen, yn gynharach drwy gyfarfod pwrpasol neu drwy ohebiaeth.

6. Bydd y PVSC yn asesu’r cynnig yn erbyn meini prawf, gan gynnwys:

6.1. Cyfiawnhad technegol

6.2. Goblygiadau cyfreithiol

6.3. Cydymffurfiad â Rhwymedigaethau Rhyngwladol

6.4. Effaith ar weithrediad y farchnad fewnol

6.5. Effaith ar Weinyddiaethau’r DU

6.6. Cymhwyso Fframwaith Windsor

6.7. Effaith ar Diriogaethau Dibynnol y Goron, os yw’n berthnasol

6.8. Effaith ar fasnach â gwledydd eraill

6.9. Adborth gan randdeiliaid

7. Os bydd y PVSC yn derbyn y cynnig, bydd DAERA, Defra, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda’i gilydd i ddatblygu’r ddeddfwriaeth.

8. Os na fydd y PVSC yn derbyn y cynnig, caiff ei gyfeirio yn ôl at y cynigydd i ofyn am ragor o wybodaeth/tystiolaeth neu i gadarnhau ei fod wedi ei wrthod a rhoi’r rheswm pam.

9. Os na all y PVSC ddod i gytundeb ynglŷn â sut i fwrw ymlaen â’r cynnig, cymerir camau yn unol â rhan gwneud penderfyniadau Cylch Gorchwyl y PVSC.